# ATODIAD B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

## Cyflwyniad

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried sut gallai ein cynnig i wahardd weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010: Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol ac Anfantais Economaidd-gymdeithasol.

Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o effeithiau negyddol penodol posibl ar blant a phobl ifanc, yn ogystal ag effeithiau cadarnhaol. Felly rydym wedi cynnal **Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant**, sy'n amlinellu'r ystyriaethau hyn yn fanylach.

Mae **Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol** hefyd wedi ystyried a yw ein cynnig yn cyfrannu at ganlyniadau anghydradd sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Felly, dylid darllen yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cyd â'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

## Nodau ac Effeithiau Bwriadedig y Polisi

Ar ôl ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid rhwng 2020 a 2024, gan gynnwys ymgyngoriadau (ymgynghori yng Nghymru yn 2020, ac ymgynghori ar draws y DU yn 2023) ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid penodol (mae'r manylion i'w gweld ar dudalennau 9-12), penderfynodd Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (y Ddeddf Cynhyrchion Plastig Untro) i gynnwys weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig yn yr Atodlen sy'n rhestru'r cynhyrchion sydd wedi'u gwahardd yn y Ddeddf Cynhyrchion Plastig Untro. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i gyflenwi i ddefnyddwyr yng Nghymru, gan gynnwys darparu am ddim, amrywiaeth o gynhyrchion plastig untro sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel, er mwyn mynd i'r afael â'r niwed y mae'r cynhyrchion hyn yn ei achosi i'r amgylchedd.

Daw gwaharddiad i rym ym mis Rhagfyr 2026 a fydd yn atal weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig rhag cael eu cyflenwi yng Nghymru, a bydd yn cyd-fynd yn fras â gwaharddiadau y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn 2027.

Nod ein polisi yw:

- Lleihau'n gyflym y niwed y mae llygredd plastig a microblastig yn ei achosi i'r amgylchedd, yn enwedig yn ein hafonydd a'n moroedd, wrth i weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastigau gael eu gwaredu yn y ffordd anghywir.

- Annog pobl i symud tuag at opsiynau amgen y gellir eu hailddefnyddio a/neu opsiynau diblastig.

- Cefnogi ein hamcan strategol ehangach i fynd i'r afael â'r diwylliant taflu ar ôl un defnydd drwy annog pobl i newid eu hymddygiad wrth ddefnyddio cynhyrchion untro.

## Sut bydd y cynigion hyn yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, ac sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyladwy' i'r angen i:

- *Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf;*

- *Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno, sy'n golygu rhoi sylw dyladwy, yn benodol, i'r angen i:*

  - *Ddileu neu leihau'r anfanteision y mae pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig yn eu hwynebu;*

  - *Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig sy'n wahanol i anghenion y rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Mae'r camau sy'n ymwneud â diwallu anghenion pobl anabl sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn anabl yn cynnwys, yn benodol, camau i ystyried eu hamhariadau;*

  - *Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae'r lefelau cyfranogiad yn anghymesur o isel ymysg pobl o'r fath; a*

- *Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Mae hyn yn golygu rhoi sylw dyladwy, yn benodol, i'r angen i fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth.*

## Trosolwg o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y broses datblygu polisi

Er mwyn datblygu ein cynigion, rydym wedi casglu tystiolaeth o astudiaethau gwyddonol, arolygon cyhoeddus, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgyngoriadau cyhoeddus drwy gydol y cyfnod rhwng 2020 a 2024. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd (mae'r manylion i'w gweld ar dudalennau 9-12) wedi llywio ein hasesiadau o'r

effeithiau, yr angen i gynnwys esemptiadau penodol sydd wedi arwain at ein hystyriaeth a chamau lliniaru yn erbyn yr holl effeithiau negyddol posibl a nodwyd ar unigolion, grwpiau, busnesau a sefydliadau eraill. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd â nodwedd warchodedig, neu sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

## Grwpiau Gwarchodedig

Yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law yn ein hymgynghoriad cyhoeddus llawn yn 2020, Lleihau'r defnydd o blastig untro, rhagor o waith ymgysylltu uniongyrchol penodol yn 2022 a 2024, ac Ymgynghoriad ar draws y DU yn 2023 a oedd yn ymwneud yn benodol â gwahardd weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig, gwelsom y bydd ein cynigion yn effeithio ar y grwpiau nodweddion gwarchodedig canlynol:

- **Pobl hŷn (oedran)**
- **Hil ac ethnigrwydd**
- **Pobl anabl (a'u gofalwyr)**
- **Beichiogrwydd a mamolaeth**
- **Pobl ar incwm isel**
- **Plant a phobl ifanc (Asesiad Effaith ar wahân)**

### Effeithiau ar Bobl Hŷn

Effaith Gadarnhaol

Bydd cyflwyno'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol drwy leihau ar unwaith faint o weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig sy'n dod yn rhan o'r amgylchedd, ac effaith gadarnhaol hirdymor drwy leihau llygredd microblastig. Bydd hyn yn gwella ansawdd y mannau gwyrdd a'r mannau glas y gall pobl hŷn eu defnyddio a'u mwynhau, sy'n gallu gwella llesiant corfforol a meddyliol wrth i bobl fwynhau eu cymuned leol yn fwy. Mae cysylltiad cryf rhwng llesiant oedolion hŷn a'r amgylchedd lleol, lle mae'r boblogaeth hŷn yn treulio mwy o amser na'r boblogaeth iau yn gyffredinol oherwydd, er enghraifft, eu bod wedi ymddeol neu oherwydd bod eu gallu i symud yn mynd yn fwy a mwy cyfyngedig.

Bydd mynd i'r afael â phroblem sbwriel a llygredd plastig a gwella'r amgylchedd yn gwella iechyd a llesiant unigolion, yn ogystal â'u teuluoedd a'r gymuned ehangach. Yn unol â hynny, rydym yn disgwyl i ganlyniadau amgylcheddol ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth gyfan yn gyffredinol.

Effeithiau Negyddol

Drwy ymgynghori, rydym wedi gweld y gallai'r gwaharddiad arfaethedig ar weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig gael effaith negyddol fach ar bobl hŷn. Darparu weips gwlyb at ddibenion hylendid a meddygol oedd dan sylw yn bennaf, gyda phryderon yn cael eu mynegi y gallai costau ac addasrwydd opsiynau amgen diblastig arwain at effaith

ariannol neu effaith ar fywyd o ddydd i ddydd. Er mwyn ceisio mynd i'r afael ag agweddau hylendid personol a meddygol y pryderon hyn, rydym wedi darparu esemptiad a fydd yn golygu ei bod yn dal yn bosibl cael gafael ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ac sy'n cael eu dylunio neu eu gweithgynhyrchu i gael eu defnyddio ar gyfer gofal neu driniaeth feddygol. Bydd lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn dal yn gallu cael gafael ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, gan fod y Ddeddf Cynhyrchion Plastig Untro dim ond yn berthnasol i gyflenwad busnesau i ddefnyddwyr. O ran weips gwlyb sy'n cael eu prynu mewn lleoliad manwerthu, rydym yn disgwyl i'r pwynt prisiau rhwng weips plastig a weips diblastig ostwng wrth i wneuthurwyr newid i gynhyrchu opsiynau amgen. Ond, byddwn yn parhau i fonitro'r effeithiau hyn fel rhan o broses adolygu ehangach y Ddeddf Cynhyrchion Plastig Untro.

**Hil ac ethnigrwydd**

Mae Adran Busnes a Masnach y DU yn cynnal arolygon dros y ffôn o fusnesau bach a chanolig (rhwng 0 a 249 o weithwyr) yn y DU. Mae canlyniadau arolwg 2022 ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn dangos bod strwythur poblogaeth busnesau Cymru yn 2022 wedi cael ei ddominyddu gan fusnesau bach a chanolig, a oedd yn cynrychioli dros 99% o'r boblogaeth o fusnesau yng Nghymru. Mae busnesau sy'n cael eu harwain gan grwpiau ethnig lleiafrifol yn golygu mai person o grŵp ethnig lleiafrifol sy'n llwyr reoli'r busnes, neu fod o leiaf hanner y tîm rheoli yn aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol. Gyda'i gilydd, 2.7% o gyflogwyr busnesau bach a chanolig yng Nghymru oedd yn cael eu harwain gan grwpiau ethnig lleiafrifol – yr ail ffigur isaf ymysg pedair gwlad y DU.

Yn yr adroddiad diweddaraf ar Dlodi Incwm Cymharol, nodwyd bod 50% o debygolrwydd y byddai pobl lle mae'r penteulu yn perthyn i grŵp Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae hyn yn cymharu â 21% o debygolrwydd ar gyfer aelwydydd lle mae'r penteulu yn perthyn i grŵp ethnig gwyn. Fodd bynnag, oherwydd bod gan y mwyafrif helaeth o aelwydydd yng Nghymru benteulu sy'n perthyn i grŵp ethnig gwyn, roedd y rhan fwyaf o bobl (90%) a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn dod o aelwydydd o'r fath.

Effeithiau cadarnhaol

Bydd mynd i'r afael â phroblem sbwriel a llygredd plastig a gwella'r amgylchedd yn gwella iechyd a llesiant unigolion, yn ogystal â'u teuluoedd a'r gymuned ehangach. Rydym yn disgwyl i ganlyniadau amgylcheddol ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth gyfan yn gyffredinol.

Effeithiau negyddol

Yn ôl data adroddiad Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2022 i Mawrth 2023, roedd aelwydydd lle'r oedd y penteulu yn perthyn i grŵp Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r rheini oedd â phenteulu a oedd yn

perthyn i grŵp ethnig gwyn. Felly, pe bai'n costio mwy i brynu weips gwlyb diblastig untro, mae'n bosibl y byddai hynny'n cael mwy o effaith negyddol arnyn nhw.

Yn ôl data ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2019 a 2023, roedd 50% o debygolrwydd y byddai pobl lle mae'r penteulu yn perthyn i grŵp Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o'i gymharu â 22% o debygolrwydd ar gyfer y rheini lle mae'r penteulu yn perthyn i grŵp ethnig gwyn. Cofiwch, mae gan y mwyafrif helaeth o aelwydydd yng Nghymru benteulu sy'n perthyn i grŵp ethnig gwyn, ac felly roedd y rhan fwyaf o bobl (93%) a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn dod o aelwydydd o'r fath.

Roedd ein gwaith ymchwil rhagarweiniol yn dangos y gallai gwaharddiad ar gyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig gael effaith fach neu gymedrol ar fusnesau yng Nghymru. Bydd costau pontio (dod o hyd i opsiynau amgen diblastig), ond dangosodd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid fod yr effeithiau cyffredinol ar fusnesau yn debygol o fod yn fach os bydd cynhyrchion diblastig ar gael am gost gymaradwy, a phan fydd y cynhyrchion hyn yn cynrychioli cyfran cymharol fach o gostau busnes yn gyffredinol.

Felly, efallai y bydd effaith negyddol fach ar berchnogion busnes sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol (ac ar hyn o bryd yn gwerthu weips gwlyb plastig) yn y tymor byr tra bydd busnesau'n addasu i'r cynigion hyn wrth iddynt gael eu cyflwyno. Mae adborth o'n gwahanol ymgyngoriadau wedi dangos bod llawer o ddefnyddwyr eisoes wedi newid eu harferion prynu, a'u bod eisoes yn ystyried yn fwy gofalus sut gallai'r hyn maent yn ei brynu gael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Felly, mae'n bosibl bod rhai o'r busnesau hyn eisoes wedi newid i ddarparu opsiynau amgen oherwydd newidiadau yn y gadwyn gyflenwi.

Efallai y bydd perchnogion busnes o grwpiau ethnig lleiafrifol hefyd yn poeni am gael fersiwn mewn iaith ar wahân i Saesneg o'r canllawiau ar weithredu'r cynigion. Bwriad y canllawiau yw darparu gwybodaeth a fydd yn sicrhau eglurder i swyddogion gorfodi, cyflenwyr, manwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Byddwn yn sicrhau bod y canllawiau ar gael i bob dinesydd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar gais er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn hygyrch i bawb.

**Pobl anabl**

<u>Effeithiau cadarnhaol</u>

Bydd cyflwyno'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol drwy leihau ar unwaith faint o weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig sy'n dod yn rhan o'r amgylchedd, ac effaith gadarnhaol hirdymor drwy leihau llygredd plastig. Bydd hyn yn gwella ansawdd y mannau gwyrdd a'r mannau glas y gall pobl eu defnyddio a'u mwynhau, sy'n gallu gwella llesiant corfforol a meddyliol wrth i bobl fwynhau eu cymuned leol yn fwy.

Effeithiau Negyddol

Mae amhariadau ac anableddau dysgu yn gallu ei gwneud hi'n anoddach i bobl gyflawni gweithgareddau dyddiol sy'n aml yn cael eu cymryd yn ganiataol. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2024, sy'n rhoi cipolwg ar gyflwr y genedl a'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn darparu'r data canlynol:

- Mae'r gyfradd cyflogaeth ymysg oedolion anabl 16 i 64 oed (51% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024) yn dal yn is nag ymysg y rheini nad ydynt yn anabl.
- Yn 2022-23, 25% oedd cyfran y bobl a oedd ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor a oedd yn byw mewn aelwyd a oedd mewn amddifadedd materol, ac mae'n fwy na dwywaith yn uwch na'r gyfradd ar gyfer y rheini nad ydynt yn anabl (11%).
- Roedd y bwlch cyflog ar sail anabledd yng Nghymru yn 12.2% yn 2023. Mae hyn yn golygu bod pobl anabl yng Nghymru wedi bod yn ennill 12.2% yn llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl.
- Mae cyfran ychydig yn uwch o bobl anabl sy'n gyflogedig yn gweithio mewn diwydiannau a oedd wedi gorfod cau yn ystod cyfnod cynnar y pandemig wrth gymharu â gweithwyr nad ydynt yn anabl (17% mewn cymhariaeth â 15%).

Mae'r wybodaeth hon yn dangos bod unigolion, sydd ag anabledd neu salwch hirdymor cyfyngol, eisoes dan anfantais o safbwynt cymdeithasol ac ariannol o bosibl. Roedd pryderon a fynegwyd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ymwneud yn bennaf ag addasrwydd a chost cynhyrchion amgen. Pwysleisiwyd bod angen i rai unigolion ddefnyddio nifer o weips gwlyb bob dydd o bosibl at ddibenion hylendid, a allai ddod yn faich ariannol pe bai'n rhaid prynu opsiynau amgen y gellir eu hailddefnyddio, neu na ellir eu hailddefnyddio, sy'n costio mwy.

Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y rheini sydd, oherwydd anabledd, angen weips gwlyb penodol sy'n cynnwys plastig, mae esemptiad wedi cael ei ddarparu ar gyfer weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ac sy'n cael eu dylunio neu eu gweithgynhyrchu i gael eu defnyddio ar gyfer gofal neu driniaeth feddygol. Bydd yr esemptiad hwn yn sicrhau bod y cynhyrchion hyn ar gael i'r rheini sydd eu hangen.

O ran costau, mae ymchwil a wnaed gan Lywodraeth y DU wedi dangos mai bach iawn yw'r pwynt prisiau rhwng weips plastig a weips diblastig, a bod mwy o brisiau cystadleuol yn debygol wrth i weithgynhyrchwyr barhau i newid i ddarparu opsiynau amgen. Nid ydym yn rhag-weld y bydd y cynigion yn cael effaith anghymesur nac arwyddocaol, ond byddwn yn parhau i fonitro'r polisi wrth iddo gael ei roi ar waith.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Mae microblastigau wedi dod yn fwyfwy cyffredin ym myd natur, ac mae astudiaethau diweddar a gyhoeddwyd wedi dangos eu bod wedi halogi nid yn unig y môr a lle rydym yn byw ond hefyd yr aer, ein bwyd a hyd yn oed ein cyrff. Er nad ydym eto'n gwybod pa effeithiau sy'n dod yn sgil hynny, mae ein deddfwriaeth yn rhan o agwedd ragofalus ehangach ar y mater.

Effaith Gadarnhaol

Roedd astudiaeth a gyhoeddwyd yn Environment International (Plasticenta: First evidence of microplastics in human placenta, Ragusa et al, 2021) yn darparu tystiolaeth bod microblastigau yn bresennol mewn plasenta dynol hyd yn oed, gan achosi risg bosibl i iechyd a datblygiad y ffetws. Credir bod y microblastigau yn mynd i mewn i gorff y fam pan fydd yn llyncu bwyd neu'n anadlu, a'u bod wedyn yn cael eu trawsleoli i'r plasenta. Er bod angen gwneud rhagor o ymchwil ar y pwnc, credir y gallai'r microblastigau hyn amharu ar fecanweithiau imiwnedd mewn babanod. Bydd y cynnig rydym yn ei gyflwyno yn cael effaith gadarnhaol drwy leihau ar unwaith faint o ficroblastigau sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd.

Effeithiau negyddol

Fel y nodwyd gyda grwpiau eraill yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, roedd pryderon a gododd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ymwneud yn bennaf â chost cynhyrchion amgen, yn enwedig mewn perthynas â gofal plant. Ond, fel y nodwyd eisoes, mae ymchwil a wnaed gan Lywodraeth y DU wedi dangos mai bach iawn yw'r pwynt prisiau rhwng weips plastig a weips diblastig, a bod mwy o brisiau cystadleuol yn debygol wrth i weithgynhyrchwyr barhau i newid i ddarparu opsiynau amgen. Nid ydym yn rhag-weld y bydd y cynigion yn cael effaith anghymesur nac arwyddocaol ar y grŵp hwn ac, felly, nid ydym wedi cynnwys unrhyw esemptiadau. Byddwn yn parhau i fonitro'r polisi wrth iddo gael ei roi ar waith er mwyn cael gwybod am unrhyw effeithiau negyddol anfwriadol.

**Aelwydydd Incwm Isel**

Yn ôl ein diffiniad ni, mae person yn byw mewn tlodi incwm cymharol os yw'n byw mewn aelwyd lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell yn llai na 60% o incwm cyfartalog aelwydydd y DU.

Effeithiau cadarnhaol

Bydd cyflwyno'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol drwy leihau ar unwaith faint o weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig sy'n dod yn rhan o'r amgylchedd, ac effaith gadarnhaol hirdymor drwy leihau llygredd plastig. Bydd hyn yn gwella ansawdd y mannau gwyrdd a'r mannau glas y gall pobl eu defnyddio a'u mwynhau, sy'n gallu gwella llesiant corfforol a meddyliol wrth i bobl fwynhau eu cymuned leol yn fwy.

Effeithiau negyddol

Mae ystadegau yn adroddiad Tlodi Incwm Cymharol: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 yn ymwneud â thlodi incwm cymharol yng Nghymru ar ôl talu costau tai fel rhent/taliadau llog morgais, cyfraddau dŵr ac yswiriant tai strwythurol.

Yn ôl yr adroddiad, roedd bron i chwarter yr holl bobl yng Nghymru (22%) yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng blynyddoedd ariannol 2022 a 2024. Plant sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi cymharol (31% o blant mewn cymhariaeth â 18% o bensiynwyr). Dros y cyfnod adrodd, roedd 21% o oedolion Cymru o oedran gweithio yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

Yn yr adroddiad, yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (sy'n defnyddio diffiniad y model meddygol o anabledd yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef pobl anabl), mae pobl yn cael eu dynodi'n anabl os ydynt yn rhoi gwybod am unrhyw salwch neu gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol y mae disgwyl iddo bara am 12 mis neu fwy ac sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau bob dydd. Hefyd, mae byw gyda pherson sydd ag anabledd yn gwneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol i blant a phobl o oedran gweithio. Yn ôl yr Adroddiad:

- roedd 38% o blant a oedd yn byw mewn teulu lle'r oedd gan rywun "anabledd" yn byw mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â 26% o'r rheini a oedd yn byw mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl

- roedd 31% o oedolion o oedran gweithio, a oedd yn byw mewn teulu lle'r oedd gan rywun anabledd, yn byw mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â 18% o'r rheini mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl

Yn ôl yr adroddiad, mae oedolion neu blant sy'n byw mewn aelwyd gyda pherson anabl eisoes yn debygol o fod dan anfantais ariannol.

O ran costau, mae ymchwil a wnaed gan Lywodraeth y DU wedi dangos mai bach iawn yw'r pwynt prisiau rhwng weips plastig a weips diblastig, a bod mwy o brisiau cystadleuol yn debygol wrth i weithgynhyrchwyr barhau i newid i ddarparu opsiynau amgen. Nid ydym yn rhag-weld y bydd y cynigion yn cael effaith anghymesur nac arwyddocaol, ond byddwn yn parhau i fonitro'r polisi wrth iddo gael ei roi ar waith.

**Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu? A ellir lleihau, dileu neu liniaru'r rhwystrau hyn?**

Codwyd costau cynhyrchion "amgen" fel rhwystr posibl i bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ond mae'n aml wedi bod yn anodd gwybod a fyddai'r gwaharddiadau'n berthnasol i'r cynhyrchion sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan y rheini sy'n codi'r pryderon – hynny yw, a ydynt yn cynnwys plastig. Oherwydd natur rhai o'r ffyrdd

maent yn cael eu defnyddio – er enghraifft, ar gyfer hylendid personol a/neu ofal meddygol – nid ydym wedi ceisio cael rhagor o fanylion. Yn hytrach na hynny, rydym yn aml wedi defnyddio'r cynhyrchion presennol sydd ar gael fel procsis ar gyfer ein hasesiadau. Er enghraifft, gwnaethom edrych ar gostau'r cynhyrchion hynny sydd ar gael yn hwylus ar-lein ac mewn siopau, a'r rheini sy'n cael eu prynu at ddibenion meddygol penodol – hy, weips anymataliaeth.

Rydym ni o'r farn bod digon o weips diblastig ar gael, ac er bod y prisiau'n gallu amrywio, rydym ni'n rhag-weld y bydd y bwlch hwn o ran costau yn lleihau dros amser. Pan oedd weips gwlyb penodol a oedd yn cynnig plastig yn cael eu hystyried yn hanfodol at ddiben meddygol, rydym wedi ceisio darparu esemptiad ar gyfer y mathau hyn o weips gwlyb.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda busnesau, gwneuthurwyr, y rheini sy'n gorfodi'r gwaharddiadau, a grwpiau nodweddion gwarchodedig cyn gweithredu'r gwaharddiadau. Bydd hyn yn cynnwys datblygu canllawiau cynhwysfawr a chodi ymwybyddiaeth o'r mathau o gynhyrchion sy'n dod o dan y gwaharddiadau ynghyd â chynhyrchion amgen.

Nid oes bwriad penodol i'r polisi fynd i'r afael â rhagfarn na hybu dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig. Fodd bynnag, ar sail y gefnogaeth aruthrol i gyflwyno'r cynigion, nid ydym yn credu y byddai cyflwyno'r cynigion hyn yn achosi gwrthdaro rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Er y bydd gweithredu'r cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar warchod ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae unrhyw effeithiau negyddol posibl yn debygol o fod yn gyfyngedig. Rydym ni'n credu bod y cynnig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a diogelu hawliau pobl y mae angen y cynhyrchion hyn arnynt o hyd at ddiben meddygol. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai ddigwydd, a bydd yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhwng 2020 a 2024

### ***Ymgynghoriad ar draws y DU (2023)***

Cynhaliodd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon ymgynghoriad chwe wythnos ar gynigion i wahardd weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 14 Hydref 2023 a 25 Tachwedd 2023.

Gofynnwyd am farn ar waharddiad arfaethedig ar weithgynhyrchu, cyflenwi a gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig er mwyn mynd i'r afael â'u heffaith ar yr amgylchedd. Byddai'r gwaharddiad arfaethedig, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, yn cael ei roi ar waith gan wledydd unigol yn y DU, a byddai'n cael ei weithredu drwy eu mecanweithiau deddfwriaethol eu hunain.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar amrywiaeth o bynciau, a oedd yn cynnwys effaith debygol y gwaharddiad arfaethedig ar ddefnyddwyr, yn enwedig y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.  Gofynnwyd am farn hefyd ynghylch a oedd angen unrhyw esemptiadau ar gyfer weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

Gan fod y broses ymgynghori hon yn cael ei harwain gan y DU, ni fu unrhyw waith ymgysylltu uniongyrchol a phenodol, ond cafodd yr ymgynghoriad ei rannu ag amrywiaeth eang o grwpiau a sefydliadau i ofyn am eu barn.

<u>Yr ymatebion a'r dystiolaeth a gasglwyd</u>

Yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar draws y DU, gwelwyd pryderon tebyg i'r rheini a godwyd mewn ymgynghoriad blaenorol gan Lywodraeth Cymru yn 2020 (ymateb i'r ymgynghoriad), ac mewn gwaith ymgysylltu penodol â rhanddeiliaid yng Nghymru a wnaed rhwng 2020 a 2024. Roedd y themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro yn cynnwys pryderon ynghylch cyfansoddiad a chryfder yr opsiynau amgen i'w defnyddio at ddibenion gofal/hylendid personol a chost bosibl opsiynau amgen, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y grwpiau canlynol:

- Unigolion sydd eu hangen at ddibenion hylendid, gan gyfeirio at eu pwysigrwydd i rai pobl anabl a phobl hŷn
- Unigolion sy'n eu defnyddio i ofalu am fabanod neu blant ifanc
- Ar gyfer eu defnyddio mewn lleoliadau gofal iechyd (oherwydd y ffordd y cafodd y deunyddiau a ddefnyddir yn eu cynhyrchion eu dewis oherwydd eu priodweddau unigryw, gyda phob math o weip wedi'i ddylunio at ddiben glanhau neu ddiheintio penodol).

Er mwyn deall effeithiau posibl unrhyw ddeddfwriaeth, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ragor o ymarferion casglu tystiolaeth a hwylusodd nifer o sesiynau ymgysylltu gydag amrywiaeth o randdeiliaid rhwng 2022 a 2024.  Gwnaed gwaith ymgysylltu â chynrychiolwyr ar ran y diwydiant, y sector manwerthu, iechyd a gofal cymdeithasol, y rheini sy'n cynrychioli grwpiau nodweddion gwarchodedig, a'r amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys sefydliadau fel Sgrinio Clyw Babanod Cymru a Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Cymru, Grŵp Diddordeb Arbennig Ieuenctid Cymru, a'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru). Ni chododd cynrychiolwyr o'r grwpiau hyn unrhyw bryderon penodol am effeithiau negyddol y gwaharddiadau. Ymgysylltwyd hefyd â Grŵp Diddordeb Arbennig Ieuenctid Cymru ar

Newid Hinsawdd. Unwaith eto, ni chodwyd unrhyw faterion penodol yn ymwneud â chydraddoldeb.

Sampl o safbwyntiau ynghylch nodweddion gwarchodedig a gafwyd gan ymatebwyr yng Nghymru mewn ymateb i ymgyngoriadau a'r gwaith ymgysylltu drwy gydol y cyfnod hwn.

Gwelir isod ddetholiad o safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu, a oedd naill ai'n amlinellu pryderon ynghylch effeithiau posibl ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig/lleoliadau gofal iechyd, neu'n credu y byddai effaith gyfyngedig yn debygol. Roedd hyn yn aml yn cynnwys pryderon ynghylch cost ac addasrwydd weips amgen.

*Rydw i'n anabl, ac rydw i'n defnyddio weips gwlyb i lanhau fy hun pan nad ydw i'n gallu cael cawod. Mae'r weips diblastig rydw i wedi'u defnyddio wedi bod yn ddigon da, ond mae hi'n ymddangos eu bod nhw'n torri'n haws, felly rydw i wedi gorfod defnyddio mwy ohonyn nhw. Efallai weips mwy trwchus a mwy o faint i ofalwyr a'r rhai sy'n eu defnyddio i ymolchi.* **Dienw**

*Ar hyn o bryd, mae weips bioddiraddadwy yn ddrytach felly gallai hyn fod yn broblem, ond rydw i'n credu y byddai'r gost yn lleihau wrth i fwy o ddarparwyr gynhyrchu weips ecogyfeillgar.* **Dienw**

*Mae weips gwlyb yn bwysig mewn lleoliadau meddygol a gofal cymdeithasol. Os oes angen i weips o safon feddygol gynnwys plastig ar hyn o bryd, byddem yn cytuno bod angen gwneud lwfansau yn yr amgylchiadau hyn a sicrhau nad yw'r rhain yn cael eu gwahardd nes bod opsiwn amgen diblastig, costeffeithiol ac addas ar gael.* **Dienw**

*"Dydyn ni ddim yn siŵr ai gwaharddiad neu fesurau eraill fyddai fwyaf priodol. Ond mae'n hollbwysig bod pobl anabl a gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau cynnar ynghylch cael gwared ar ragor o blastigau untro, gan gynnwys unrhyw gynigion yn y dyfodol sy'n ymwneud â weips gwlyb. Rhaid rhoi ystyriaeth ychwanegol hefyd i anghenion pobl nad oes ganddynt gyfleusterau ymolchi ac ati o bosibl. Er enghraifft, gall pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd ddibynnu'n aml ar weips gwlyb ar gyfer hunanofal / glanhau; mae weips gwlyb yn aml yn cael eu cynnwys mewn pecynnau hunanofal a ddarperir i bobl gan elusennau (dylid ystyried hyn fel rhan o ystyriaethau economaidd-gymdeithasol a'r broses o weithredu dyletswydd newydd)".* **Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

*"Mae'r rhain yn hanfodol wrth ofalu am blant. Ond, mae opsiynau eraill ar wahân i weips glanhau ar gael at ddibenion glanhau. Nes bod opsiynau amgen addas ar gael ar gyfer gofal plant, dydw i ddim yn gwybod a oes modd newid hyn. Ond, mae'r rhain yn cael effaith affwysol ar yr amgylchedd, ac mae angen dod o hyd i opsiwn amgen".* **Gwasanaeth Ieuenctid y Fro**

*“Does dim angen eu defnyddio, ond dylid cyflwyno’r gwaharddiad hwn yn raddol er mwyn i’r rhieni hynny sydd â phlant mewn clytiau gael amser i newid. Eithriad ar gyfer sefyllfaoedd gofal o bosibl. Er enghraifft, oedolyn sy’n defnyddio clytiau, efallai?”* **Dienw**

*“Os mai gweithgynhyrchwyr oedd angen gwneud y newidiadau, ac na fyddai’r costau yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr, gan y gallai hyn arwain at ddioddefaint i deuluoedd incwm isel sydd â phlant.”* **Dienw**

*“Ond mae angen rhoi cymorth i famau newydd – yn enwedig y rheini lle mae incwm yr aelwyd yn llai na £30,000”.* **Dienw**

*“Yn fy marn i mae’r manteision o ran hylendid yn drech ar hyn o bryd, gan nad oes llawer o opsiynau amgen ar gael ar hyn o bryd sy’n economaidd bosibl i’r rhan fwyaf o bobl”.* **Dienw**

*“Mae weips gwlyb yn cael eu defnyddio at ddibenion meddygol. Mae angen eu cadw”.* **Dienw**

*“Mae’n rhaid i mi ddefnyddio weips gwlyb am resymau meddygol personol. Ond rydw i’n ymwybodol iawn eu bod yn niweidio’r amgylchedd, ac rydw i'n poeni’n fawr am hynny”.* **Dienw**

*“Mae weips gwlyb, yn enwedig y rhai mawr iawn, yn ddefnyddiol dros ben i rai pobl anabl er mwyn cadw eu hunain yn lân. Mae’n help os ydyn nhw’n cael eu gwneud o sylweddau bioddiraddadwy. Mae angen addysgu pobl i beidio â'u defnyddio’n anghyfrifol, gan gynnwys eu fflysio i lawr y toiled.”* **Dienw**

**AROLWG WRAP CYMRU**

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu WRAP Cymru, sefydliad amgylcheddol anllywodraethol, i gynnal arolwg ar-lein o 1,003 o oedolion rhwng 4 a 17 Gorffennaf 2022 er mwyn deall ymddygiad a safbwyntiau defnyddwyr mewn perthynas â weips gwlyb. Roedd y cwestiynau’n canolbwyntio ar ba mor aml roeddent yn prynu ac yn defnyddio weips gwlyb, pam roeddent yn eu defnyddio, sut roeddent yn cael gwared ar y weips gwlyb, eu canfyddiad am weips gwlyb fel ffynhonnell sbwriel, a’u hymateb i wahanol ymyriadau polisi.

Roedd y data hwn wedi helpu i lywio ein dealltwriaeth polisi o’r math o ffyrdd mae weips gwlyb yn cael eu defnyddio, a pha mor aml maent yn cael eu defnyddio, ar draws yr ystod ddemograffig. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod weips gwlyb yn cael eu defnyddio’n helaeth, gyda dim ond 11% o’r ymatebwyr i’r arolwg yn dweud nad oeddent erioed wedi prynu rhai. Wrth ymateb i gwestiwn ar ddefnyddio, dywedodd 74% eu bod yn defnyddio weips glanhau arwyneb/cyffredinol, 71% eu bod yn defnyddio weips diheintio, a 56% eu bod yn defnyddio weips toiled gwlyb. Dim ond

39% o’r ymatebwyr ddywedodd eu bod yn defnyddio weips babi. Er eu bod yn cael eu defnyddio’n aml yn y cartref, canfu’r ymchwil fod cefnogaeth eang i ymyriadau polisi, gyda bron i bedwar o bob pump (78%) o’r ymatebwyr naill ai’n gryf o blaid, neu rywfaint o blaid, gwahardd weips gwlyb sy’n cynnwys plastig.

Crynodeb o’r ymatebion a’r dystiolaeth a gasglwyd

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwn yn ategu’r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn 2020. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid unrhyw waharddiadau os oedd cynhyrchion amgen diblastig addas ar gael ar y farchnad.

O ran esemptiadau, cymysg oedd y farn ynghylch a oedd eu hangen.  Roedd rhai ymatebwyr o’r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu opsiynau amgen addas, a theimlai rhai y byddai’n rhaid gwneud esemptiadau fel dewis olaf o bosibl os na fyddai unrhyw opsiynau eraill ar gael. O ran faint o amser sydd ei angen i addasu i unrhyw waharddiadau, roedd y safbwyntiau’n amrywio o ddiwrnodau i flwyddyn, gyda rhai aelodau’n dweud eu bod yn cael weips gan y GIG a’u bod felly’n dibynnu ar gyflenwadau'r GIG.

**Arolygon penodol gyda darparwyr gofal iechyd**

*Ysbytai a fferyllfeydd* – Cafwyd barn gan y sector hwn drwy drafodaethau uniongyrchol â Chymdeithas Feddygol Prydain (Cymru), a thrwy arolwg e-bost a anfonwyd i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Er nad oedd y cwestiynau’n sôn yn benodol am ofalu am blant a phobl ifanc, disgwylir y byddai gofal dros unigolion o’r fath wedi cael ei ystyried yn yr ymatebion.

Dywedodd y rheini sy’n gweithio yn y sector hwn fod weips gwlyb yn cael eu defnyddio mewn pob math o ffyrdd, gan gynnwys gofal personol ar gyfer cleifion – er enghraifft, gellir eu defnyddio ar gyfer bath yn y gwely ac anymataliaeth. Nodwyd bod y mathau hyn o weips yn aml yn cynnwys cyfryngau glanhau, lleithyddion, a nodweddion gwarchod y croen – hyn i gyd mewn un cynnyrch. Dywedwyd eu bod hefyd yn cael eu defnyddio at ddibenion sterileiddio a glanhau cyffredinol ynghyd â rheoli heintiau – ar gyfer pobl, arwynebau a chyfarpar. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd fod yr elfen blastig mewn weips gwlyb yn nodwedd bwysig. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei fod yn helpu i gryfhau’r defnydd, ac yn arwain at fanteision o ran y ffeibrau ac effeithiolrwydd.

Fodd bynnag, darparwyd tystiolaeth hefyd bod rhai o Fyrddau Iechyd y GIG yn archwilio opsiynau amgen “diblastig”. Er enghraifft, roedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro wedi cyflwyno weips “diblastig” mewn rhai o’u Hunedau Gofal Dwys, ond nodwyd y bu’n anodd dod o hyd i weips addas. Pwysleisiodd yr ymatebydd hefyd ei bod yn aml yn anodd cyflwyno newidiadau o’r fath, a bod angen ymgysylltu â’r staff i roi sicrwydd ynghylch y cynnyrch newydd.

**Cofnod o’r Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

Llenwch yr adran nesaf i ddangos sut gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn gael effaith (gadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. *(Edrychwch ar ddogfen ganllawiau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth.)* Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd rydych chi wedi dod ar eu traws a allai wella neu hybu cyfle cyfartal. Mae hyn yn cynnwys dweud beth allwn ni ei wneud i chwalu rhwystrau a gwella cyfranogiad ymysg pobl sy'n cael eu tangynrychioli neu sy'n wynebu anfantais anghymesur.

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio ag asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb*. Tynnwch sylw at unrhyw fylchau rydych chi wedi'u gweld yn y dystiolaeth, ac eglurwch sut/a ydych chi'n bwriadu llenwi'r bylchau hyn.

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | <u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Bydd manteision ehangach i'r amgylchedd yn sgil mynd i'r afael â llygredd plastig. Gall hyn annog pobl i fwynhau mannau gwyrdd a mannau glas. Gallai gwella llesiant corfforol a meddyliol wrth i bobl fwynhau eu cymuned leol yn fwy arwain at fantais bosibl.<br><br><u>Effaith Negyddol</u><br><br>Efallai y bydd cael gwared ar weips gwlyb rhatach sy'n cynnwys plastig yn cael effaith ariannol ar bobl hŷn.<br><br>Effeithiau ar iechyd y rheini sy'n defnyddio weips plastig at ddibenion gofal iechyd (pan nad oes opsiwn amgen diblastig addas ar gael). | <u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Bydd yr ymchwil wyddonol, a'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi, yn tynnu sylw at risgiau amgylcheddol a risgiau posibl i iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd plastig.<br><br><u>Effaith negyddol</u><br><br>Mae'r dystiolaeth sydd wedi cael ei chasglu drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi amlygu pryderon. | <u>Costau</u><br><br>Wrth i'r maes gweithgynhyrchu newid, mae opsiynau amgen mwy addas wedi dod ar gael ar y farchnad, ac mae prisiau cystadleuol gan fanwerthwyr yn lleihau'r bwlch prisiau â weips plastig rhatach. Nid ydym yn rhag-weld y bydd hyn yn cael effaith negyddol sylweddol, ac felly nid ydym wedi cynnwys unrhyw fesurau lliniaru.<br><br><u>Effeithiau ar iechyd</u><br><br>Bydd esemptiad yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y rheini y mae angen weips arnynt at ddibenion meddygol (pan nad oes opsiynau amgen diblastig addas ar gael) yn dal yn gallu cael gafael ar weips.<br><br>Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a'r ffordd y gallai'ch cynnig achosi'n anfwriadol, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu, y rhwystrau sy'n gwneud pobl â gwahanol fathau o amhariad yn anabl) | Effaith Gadarnhaol<br><br>Bydd manteision ehangach i'r amgylchedd yn sgil mynd i'r afael â llygredd plastig. Gall hyn annog pobl i fwynhau mannau gwyrdd a mannau glas. Gallai gwella llesiant corfforol a meddyliol wrth i bobl fwynhau eu cymuned leol yn fwy arwain at fantais bosibl.<br><br>Effaith Negyddol<br><br>Mae'n bosibl y bydd cost opsiynau amgen diblastig yn effeithio ar bobl anabl a'r rheini sydd â chyflyrau iechyd hirdymor.<br><br>Mae'n bosibl hefyd y byddai'n anaddas defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio at ddibenion glanhau cartrefi neu ddibenion eraill.<br><br>Effeithiau ar iechyd y rheini sy'n defnyddio weips plastig at ddibenion gofal iechyd (pan nad oes opsiwn amgen diblastig addas ar gael). | Effaith Gadarnhaol<br><br>Bydd yr ymchwil wyddonol, a'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi, yn tynnu sylw at risgiau amgylcheddol a risgiau posibl i iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd plastig.<br><br>Effaith negyddol<br><br>Mae'r dystiolaeth sydd wedi cael ei chasglu drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi amlygu pryderon. | Costau<br><br>Wrth i'r maes gweithgynhyrchu newid, mae opsiynau amgen mwy addas wedi dod ar gael ar y farchnad, ac mae prisiau cystadleuol gan fanwerthwyr yn lleihau'r bwlch prisiau â weips plastig rhatach. Nid ydym yn rhag-weld y bydd hyn yn cael effaith negyddol sylweddol, ac felly nid ydym wedi cynnwys unrhyw fesurau lliniaru.<br><br>Effeithiau ar iechyd<br><br>Bydd esemptiad yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y rheini y mae angen weips arnynt at ddibenion meddygol (pan nad oes opsiynau amgen diblastig addas ar gael) yn dal yn gallu cael gafael ar weips.<br><br>Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad eu hamhariadau sy'n gwneud pobl yn anabl, ond y rhwystrau maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn chwalu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a Phobl Drawsryweddol) | <u>Effeithiau cadarnhaol</u><br><br>Bydd manteision ehangach i'r amgylchedd yn sgil mynd i'r afael â llygredd plastig. Gall hyn annog pobl i fwynhau mannau gwyrdd a mannau glas. Gallai gwella llesiant corfforol a meddyliol wrth i bobl fwynhau eu cymuned leol yn fwy arwain at fantais bosibl.<br><br><u>Effeithiau negyddol</u><br><br>Effeithiau ar iechyd y rheini sy'n defnyddio weips plastig at ddibenion gofal iechyd (pan nad oes opsiwn amgen diblastig addas ar gael). | <u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Bydd yr ymchwil wyddonol, a'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi, yn tynnu sylw at risgiau amgylcheddol a risgiau posibl i iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd plastig. | <u>Effeithiau ar iechyd</u><br><br>Bydd esemptiad yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y rheini y mae angen weips arnynt at ddibenion meddygol (pan nad oes opsiynau amgen diblastig addas ar gael) yn dal yn gallu cael gafael ar weips.<br><br>Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | <u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Bydd cyflwyno ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol drwy fynd i'r afael â llygredd plastig untro.<br><br>Mae microblastigau – darnau plastig llai na 5 mm – wedi dod yn fwyfwy cyffredin ym myd natur. Yn ôl astudiaethau a gyhoeddwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf – gan gynnwys nifer yn 2020 – maent wedi halogi nid yn unig y môr a lle rydym yn byw ond hefyd yr aer, ein bwyd a hyd yn oed ein cyrff.<br><br><u>Effaith Negyddol</u><br><br>Mae'n bosibl y bydd cael gwared ar weips gwlyb rhatach sy'n cynnwys plastig yn arwain at effaith ariannol.<br><br>Effeithiau ar iechyd y rheini sy'n defnyddio weips plastig at ddibenion gofal iechyd (pan nad oes opsiwn amgen diblastig addas ar gael). | <u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Bydd yr ymchwil wyddonol, a'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi, yn tynnu sylw at risgiau amgylcheddol a risgiau posibl i iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd plastig.<br><br><u>Effaith negyddol</u><br><br>Mae'r dystiolaeth sydd wedi cael ei chasglu drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi amlygu pryderon. | <u>Costau</u><br><br>Wrth i'r maes gweithgynhyrchu newid, mae opsiynau amgen mwy addas wedi dod ar gael ar y farchnad, ac mae prisiau cystadleuol gan fanwerthwyr yn lleihau'r bwlch prisiau â weips plastig rhatach. Nid ydym yn rhag-weld y bydd hyn yn cael effaith negyddol sylweddol, ac felly nid ydym wedi cynnwys unrhyw fesurau lliniaru.<br><br><u>Effeithiau ar iechyd</u><br><br>Bydd esemptiad yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y rheini y mae angen weips arnynt at ddibenion gofal iechyd (pan nad oes opsiynau amgen diblastig addas ar gael) yn dal yn gallu cael gafael ar weips.<br><br>Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Effeithiau cadarnhaol<br><br>Bydd manteision ehangach i'r amgylchedd yn sgil mynd i'r afael â llygredd plastig. Gall hyn annog pobl i fwynhau mannau gwyrdd a mannau glas. Gallai gwella llesiant corfforol a meddyliol wrth i bobl fwynhau eu cymuned leol yn fwy arwain at fantais bosibl.<br><br>Effaith negyddol<br><br>Bydd effaith economaidd negyddol fach o bosibl ar berchnogion busnes sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol – effaith tymor byr fydd hyn tra bydd busnesau'n addasu i'r cynigion hyn wrth iddynt gael eu cyflwyno.<br><br>Effeithiau ar iechyd y rheini sy'n defnyddio weips plastig at ddibenion gofal iechyd (pan nad oes opsiwn amgen diblastig addas ar gael). | Effaith Gadarnhaol<br><br>Bydd yr ymchwil wyddonol, a'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy gydol y gwaith o ddatblygu polisi, yn tynnu sylw at risgiau amgylcheddol a risgiau posibl i iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd plastig.<br><br>Effaith negyddol<br><br>Mae'r dystiolaeth sydd wedi cael ei chasglu drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi amlygu pryderon. | Costau<br><br>Wrth i'r maes gweithgynhyrchu newid, mae opsiynau amgen mwy addas wedi dod ar gael ar y farchnad, ac mae prisiau cystadleuol gan fanwerthwyr yn lleihau'r bwlch prisiau â weips plastig rhatach. Nid ydym yn rhag-weld y bydd hyn yn cael effaith negyddol sylweddol, ac felly nid ydym wedi cynnwys unrhyw fesurau lliniaru.<br><br>Mewn perthynas â busnesau, rydym yn rhag-weld y bydd unrhyw effaith negyddol yn un tymor byr a/neu'n fach iawn os yw cynhyrchion weips gwlyb yn cynrychioli cyfran fach o stoc y busnes.<br><br>Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |
| Crefydd, cred a dim cred | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi cael eu nodi. | | Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |
| Rhyw / Rhywedd | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi cael eu nodi. | | Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi cael eu nodi. | | Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi cael eu nodi. | | Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Mae effeithiau negyddol yn ogystal â rhai cadarnhaol wedi cael eu nodi.<br><br>Mae'r effeithiau hyn wedi cael eu harchwilio'n llawn yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |
| Aelwydydd incwm isel | Mae effeithiau negyddol yn ogystal â rhai cadarnhaol wedi cael eu nodi.<br><br>Mae'r effeithiau hyn wedi cael eu harchwilio'n llawn yn yr Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol. | Gweler yr Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol. | Byddwn yn monitro'r broses o gyflwyno'r cynigion ac yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai hynny ddigwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi? *(Cyfeiriwch at bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol* a *Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig*).

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| | Mae'r cynnig hwn yr un mor berthnasol i bawb, felly nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol ar hawliau dynol wedi cael eu nodi. | Bydd opsiynau amgen diblastig ac y gellir eu hailddefnyddio yn dal ar gael fel opsiwn yn lle weips gwlyb plastig.<br><br>Bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i gefnogi'r broses o roi'r cynigion ar waith. Y bwriad yw darparu gwybodaeth a fydd yn sicrhau eglurder i swyddogion gorfodi, cyflenwyr, manwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd.<br><br>Bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi ac ar gael i bob dinesydd mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn | Bydd esemptiad yn sicrhau bod pobl sydd angen weips gwlyb sy'n cynnwys plastig sydd wedi'u dylunio neu eu gweithgynhyrchu i gael eu defnyddio ar gyfer gofal neu driniaeth feddygol yn dal yn gallu cael gafael ar weips o'r fath. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.<br><br>Bydd opsiynau amgen, diblastig eraill ar gael i'w gwerthu a'u defnyddio. | |

**Hawliau Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir**

Nid oes unrhyw effaith wedi cael ei nodi. Er nad yw weips gwlyb sy'n cynnwys plastig wedi cael eu gwahardd mewn gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd, mae gofynion ar waith i sicrhau bod cynnyrch sy'n cynnwys plastig yn cael ei labelu'n glir, ac felly mae defnyddwyr yn ymwybodol o effeithiau amgylcheddol y cynhyrchion hyn. Deallir hefyd bod y Comisiwn Ewropeaidd eisoes yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth debyg ar draws yr UE.

Ni fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn trin Dinasyddion y Swistir/yr UE yn wahanol i breswylwyr y DU.